# DARGANFOD ARLOESEDD

## Ebrill – Gorffennaf 2019

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

### Statws RAG

■ Coch: Tu ôl i'r targed ■ Melyn: Bron â chyrraedd y targed ■ Gwyrdd: Ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed

### Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth ■

Prif allbynnau yn ystod y chwarter:


Cyhoeddwyd **7** erthygl dechnegol:

- CYNHYRCHU CNYDAU PORTHIANT DRWY DDEFNYDDIO HYDROPONEG
- EICH BRWYDR YN ERBYN CLWY TATWS: O LAS 13 A PHINC 6 I WYRDD TYWYLL 37
- NODWEDDION MAETHOL LLAETH ANIFEILIAID HEBLAW BUCHOD A'R CYFLEOEDD IDDO YN Y DEYRNAS UNEDIG
- RHYFEL Y CHWYN DYRCHAFIAD Y ROBOTIAID
- A ALL BIOFARCWYR YN Y FAM NEU'R LLO GAEL EU DEFNYDDIO I FAGU LLOI AR GYFER BUCHESI LLAETH YN FANWL GYWIR?
- PA MOR ISEL ALLWCH CHI FYND? PWYSIGRWYDD PROTEIN I'R FUWCH ODRO
- CWTOGI'CH COLLEDION: MANTEISIO I'R EITHAF AR FUDDION CYNLLUN RHEOLI MAETHOLION

Cyhoeddwyd **3** taflen ffeithiau:

- SILWAIR AML-DORIAD
- GWELLA CYNHYRCHIANT MEILLION COCH
- MWYDOD NEU BRYFED GENWAIR AC IECHYD Y PRIDD

### Partneriaeth Arloesi Ewrop ■




EIPWALES
Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success

### Prosiectau newydd yn ystod y cyfnod hwn:

#### Dwysau cynaliadwy mewn systemau cynhyrchu ar laswelltir yn yr ucheldir

Bydd dwy fferm ym Mhowys yn edrych ar ddefnyddio Rhonwellt fel ffordd o wella cynhyrchiant porfeydd yr ucheldir gan ddefnyddio dulliau mesur rheolaidd a phori cylchdro.

#### Cyflwyno defaid cynffondew i Gymru er mwyn ateb galw'r farchnad yn y DU

Dyma'r prosiect cyntaf o'i fath i gyflwyno'r Damara, sef brid o ddefaid cynffondew, i farchnad y DU, ac mae'n anelu at sicrhau bod Cymru ar flaen y gad yn natblygiad y brid yma o ddefaid.

#### Gwella diagnosis a thriniaeth llyngyr gastroberfeddol mewn gwartheg

A fyddai modd defnyddio cyfuniad o gyfrif wyau ysgarthol (FEC) gan ddefnyddio technoleg FECPAKG2, profion ymwrthedd, profi rhywogaethau a modelau rhagfynegol wella rheolaeth llyngyr mewn stoc ifanc o'r fuches laeth?

### Diweddariad ar brosiectau cyfredol:

#### Bwydo glaswellt triwyr dail

Casglwyd mesuriadau gwaelodlin ym mis Ionawr 2019 pan sefydlwyd y lleiniau cyn y tymor tyfu. Cafodd y bwyd cyntaf ei roi drwy'r dail ganol fis Chwefror 2019, ac yn ystod yr un cyfnod, derbyniodd y lleiniau eraill wrtaith confensiynol ar ffurf pelenni. Roedd y cyfraddau gwasgaru yn 250-400kg o wrtaith/Ha ar gyfer y lleiniau gwrtaith pelenni o'i gymharu â 60-80kg/Ha o wrtaith ar y lleiniau a oedd yn derbyn bwyd drwy'r dail.


Roedd mesuriadau cychwynnol yn dangos fod y lleiniau a oedd yn bwydo drwy'r dail ar y pedair fferm yn tyfu oddeutu 0.5 TDM/Ha yn fwy o borthiant na'r lleiniau gwrtaith confensiynol rhwng Ionawr a diwedd Ebrill 2019. Fodd bynnag, buan iawn y cyrhaeddodd y lleiniau confensiynol yr un lefel o dyfiant, gyda mesuriadau Mai-Gorffennaf yn dangos bod y lleiniau confensiynol wedi tyfu tua 0.5-1.5TGM/Ha yn fwy na'r lleiniau eraill. Mae'r mesuriadau'n parhau i ganfod cyfanswm cynnyrch y ddwy system.

#### Ffermwyr yn cydweithio i drechu Clafr

Cafodd 18 o'r 23 diadell o fewn y prosiect eu profi ar gyfer clafr yn ystod y flwyddyn gyntaf. Roedd y canlyniadau'n galonogol iawn gyda dim ond dwy ddiadell yn profi'n bositif. Yna, datblygwyd cynllun triniaeth mewn cydweithrediad â'r milfeddyg. Yn ogystal, cafodd pob un o'r ffermydd cyfagos wybod am yr achosion clafr, a chynhaliwyd profion i atal y clefyd rhag lledaenu ymhellach. Mae'r grŵp yn parhau i gynyddu nifer y ffermydd sy'n cymryd rhan o fewn y dalgylch cyn yr ail gyfnod profi a fydd yn dechrau yn ystod tymor yr Hydref 2019.

Cliciwch yma neu ar y sgrin deledu i wylio fideo yn amlinellu'r prosiect hyd yma.

### Teithiau Astudio ■




Cynhaliwyd **3** taith astudio yn ystod y cyfnod, a phob un ohonynt yn ystod mis Mehefin.

Ar ddechrau Mehefin, bu Grŵp Trafod Cowbois Clwyd yn ymweld â dwy fferm laeth yng Ngwlad yr Haf i ddysgu am y buddsoddiadau blaengar diweddaraf mewn technoleg godro robotig a chasglu data ar raddfa fasnachol i weld a fyddai modd defnyddio'r dechnoleg hon ar eu ffermydd eu hunain i wneud arbedion o ran llafur, a chynhyrchu mwy o laeth o borthiant.

Bu Grŵp Trafod Painscastle yn ymweld â'r Alban i edrych ar gyfleoedd posibl i arallgyfeirio ac i weld a yw busnesau yn yr Alban yn wynebu'r un heriau â'u busnesau eu hunain yng Nghymru.

Ar 26 Mehefin, bu Grŵp Cynhyrchwyr Bîff Mynyddoedd Cambria hefyd yn ymweld â'r Alban ar gyfer digwyddiad North Highland Beef. Nod yr ymweliad oedd datblygu dealltwriaeth o Fenter Gogledd yr Ucheldir a dysgu sut y byddai modd mabwysiadu eu systemau cadwyn gyflenwi i gadwyn gyflenwi Bîff Mynyddoedd Cambria.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government